Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
EBRILL 2009

DYDDIAD	Nos Fercher, 15fed Ebrill
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd Llanwnda
AELODAU'N BRESENNOL	Jason Hunt (Cad), Meurig Williams, Gwilym L.Williams, Gwilym V.Thomas, Elwyn Jones, Jane Eryl Jones, Elin Evans, Tom Ellis, Huw Williams, Neal Williams, Nerys Evans
HEFYD YN BRESENNOL	Bethan Williams (Clerc)

1. **Croeso**

2. **Ymddiheuriadau**

3. **Datgan Buddiant**
   Tom Ellis – materion cynllunio

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd cofnodion mis Mawrth fel rhai cywir.

5. **Materion i'w trafod:**
   a) Llwybr Cae Coch – nododd y clerc ei bod wedi cerdded y llwybr, ac nad oedd yn gweld unrhyw broblemau.
   b) Arwydd Rhostryfan wrth ddod mewn o Rhosgadfan – clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn wrthynt ail-osod yr arwydd.
   c) Mulcair – pegiau pren wedi'u gadael yn y glaswellt – eisoes wedi'u clirio ers y cyfarfod diwethaf.
   d) MW – eithin a drain ger Beudy Sam – clerc i gysylltu eto efo Cyngor Gwynedd i ofyn wrthynt weithredu.
   e) EE – wedi cael cais gan bentrefwyr Saron i gael gosod hysbysfwrdd yno – EE angen checio unwaith yn rhagor efo'r trigolion i gadarnhau eu bod yn awyddus i gael arwydd. Clerc i archebu arwydd unwaith y bydd wedi cael cadarnhâd gan EE.
   f) EE – materion yn ymwneud â Ysgol Syr Hugh Owen a'r Cynghorydd Aeron M.Jones. Adroddodd EE fod y llywodraethwyr wedi cyfarfod ar y 6ed o Fawrth i drafod y materion roedd Cyng.Aeron M.Jones wedi crybwyll yn y wasg. Roeddynt yn anfodlon iawn ac yn siomedig fod AMJ wedi mynd i'r wasg cyn yn gyntaf gysylltu â'r ysgol i gadarnhau'r ffeithiau.
   g) Polyn BT wedi'i osod ynghanol y palmant ger Bryn Meillion. Clerc wedi derbyn ymateb gan BT – clerc i gysylltu eto i geisio cael cyfarfod ar y safle.
   h) Angen gofyn wrth Alun Ffred Jones pwy sy'n gyfrifol am ffensio'r ardaloedd rheini yn Rhosgadfan sy'n peri problemau ynglyn a defaid yn crwydro – wedi derbyn ymateb yn nodi mai cyfrifoldeb y porwyr ydy rheoli'r prosiect a bod Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am y gridiau yn unig.
   i) Wedi derbyn ymateb gan Steffan Jones ynglyn a sbwriel rhwng Ffrwd Cae Du a Rhosgadfan, a biniau brown.. Hefyd wedi derbyn ymateb ynglyn a phroblem

gyda'r gweithwyr lori ail-gylchu yn gadael llanast ar eu holau. Nododd sawl aelod mai'r broblem fwyaf yn yr ardal ydy sbwriel sy'n cael ei daflu gan bobl ar ôl iddynt fod yn Macdonalds yng Nghaernarfon, ac unwaith maent wedi gorffen y bwyd, mae nifer fawr o bobl yn taflu'r sbwriel ar ochr y ffyrdd. Clerc i ysgrifennu i Macdonalds i ofyn tybed oes modd iddynt hwythau gymryd rhywfaint o'r cyfrifoldeb.

j) Wedi derbyn cais gan Gyngor Cymuned Llandwrog i bwyso ar Gyngor Gwynedd i wella'r sefyllfa ar y maes yng Nghaernarfon – aelodau'n cytuno y dylem sgwennu at y Cyngor Sir.

k) Mynwent Cefnfaes – clerc wedi cael gwybodaeth ynglyn â phryniant tir, ac y gallai fod yn ddrud iawn. Aelodau am i'r clerc gysylltu'n uniongyrchol a'r Arglwydd Newborough i geisio gofyn am arweiniad. Hefyd i ofyn wrth Un Llais Cymru am gyngor.

l) Offer cae chwarae Tir Glas – adroddodd y clerc fod rhywfaint o'r offer wedi pydru, a'i bod wedi gofyn wrth Wyn ei glirio ac ail osod offer newydd yn ei le. Clerc i holi ynglyn a faint o warant oedd yn cael ei gynnig efo'r offer.

6. **Derbyn Adroddiadau:**

7. **Is-bwyllgorau:**
Bydd y clerc yn trefnu is-bwyllgor y fynwent maes o law i drafod prisiau ac ati.

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	6066.53
Cyfri Siec:	314.07
CYFANSWM	**6380.60**

9. Taliadau:

Cyflog/costau clerc mis Ebril ac ad-daliad offer printio	475.05
Cyllid y Wlad	97.35
Cyngor Gwynedd – rhent Cae Chwarae Rhostryfan	1.00
Derbyniadau – claddu John Graham Thomas	+190.00

10 **Materion Cynllunio**

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO9A/0142/24/LL – Tir Castell, Llanwnda - Ail leoli rhai o ffenstri'r annedd

CO9A/0178/24/LL – 12 Bron Eryri, Rhosgadfan – gwaith peirianyddol i greu wal gynnal a man parcio a gardd

Wedi'i ganiatau:
Adnewyddu bwthyn Tal y Braich, Rhosgadfan
Garej – Blaen y Waen, Rhostryfan
Codi ty a mynedfa – tir ger Bryn Coch, Rhos Isaf

11 **Gohebiaeth:**

a. Un Llais Cymru – Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor – cofnodion
b. Cyngor Iechyd Cymuned – cynigion ar ddyfodol Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru
c. SLCC – Cylchlythyr
d. Cofnodin cyfarfod Grwp Cyswllt Lleol Cilgwyn
e. Gwahoddiad i ymweld â Senedd Cynulliad Cymru
f. Cyfadran yr Amgylchedd – gorchymyn traffig arfaethedig newid cyfyngiad cyflymder 40mya o Gylchfan Llanwnda i Bethesda Bach
g. Un Llais Cymru – penodiad Gwenllian D.Owen fell Swyddog Datblygu'r Gogledd
h. ICO – gwybodaeth gyhoeddus
i. Fforwm Cymunedol Awdurdod yr Heddlu – cyfarfod cyhoeddus ym Meddgelert ar y 19eg o Fai
j. Digital UK – gwybodaeth ar drosglwyddo o analog i ddigidol
k. Cylchgronnau

12 **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a) MW – oes gwirionedd yn y straeon fod Silver Star yn bwriadu torri nôl ar y gwasanaeth?
b) GLW – Isfryn – dwr yn dod i'r lôn, tyllau yn ffordd.
c) Brynffynnon – ffens wedi'i gosod ynghanol y ffoes yn hytrach nag wrth ei hochr. Angen ysgrifennu i Gyngor Gwynedd ac at gynrychiolydd y Goron.
d) GVT – ffens sy'n amgylchynu'r tip yn Cilgwyn – angen ei ddymchwel.
e) NW – ceir yn gyrru ger Glyn Carrog. Clerc i sgwennu at yr heddlu yn nodi fod damweiniau eisoes wedi digwydd yno
f) ElJ – parcio ger Bro Wyled. Clerc i bwyso ar Gyngor Gwynedd, ac i ofyn am gynrychiolydd i ddod yno i'n cyfarfod.
g) NE – coed y fynwent yn gordyfu. Clerc i geisio cael arbenigwr i edrych ar y coed ac i'n cynghori.
h) HW – wedi derbyn cwyn am gyflwr mynwent Rhostryfan. Clerc i basio'r gwyn ymlaen at ymddiriedolwyr y capel gan bwysleisio mai eu cyfrifoldeb hwythau yw'r fynwent.
i) JEJ – postiau concrid dal heb eu trwsio yn Ffrwd Cae Du.
j) EE – monitro traffig yn Saron – unrhyw ddatblygiad?
k) TE – arwydd i yrrwyr yn dynodi llwybr cyhoeddus ar y ffordd newydd.
l) JH – wedi cael cais yn gofyn oes posib cael palmant ger y fynwent yn Rhostryfan.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25